Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Busnes**

# Diwygio'r Rheolau Sefydlog:

## Rheolau Sefydlog 2, 13, 15 a 17 mewn perthynas â datgan buddiannau'r Aelodau

Mawrth 2026

Yn unol â Rheol Sefydlog 11.7(iv), y Pwyllgor Busnes sy'n gyfrifol am wneud argymhellion ar arferion a gweithdrefnau cyffredinol y Senedd, gan gynnwys unrhyw gynigion ar gyfer ail-wneud y Rheolau Sefydlog neu eu diwygio.

Mae'r adroddiad hwn yn argymell diwygiadau i Reolau Sefydlog 2, 13, 15 a 17, mewn perthynas â datgan buddiannau'r Aelodau.

Os cânt eu derbyn, bydd y newidiadau arfaethedig yn dod i rym ar ddechrau'r Seithfed Senedd.

Gwahoddir y Senedd i gymeradwyo'r cynigion i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog fel y'u nodir yn Atodiad A. Mae'r Rheolau Sefydlog diwygiedig, os cânt eu cymeradwyo, yn Atodiad B.

# Cynnwys

**1. Y cefndir ........ 3**

Cofrestru a datgan buddiannau ........ 3

Ymchwiliad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ........ 4

Cofrestru ........ 4

Datgan ........ 4

Y broses ........ 5

**2. Cynigion ar gyfer newidiadau i'r Rheolau Sefydlog ........ 5**

Gohebiaeth â'r Pwyllgor Safonau ........ 9

**3. Penderfyniad ........ 9**

**Atodiad A: Newidiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog a nodiadau esboniadol ........ 11**

**Atodiad B: Y Rheolau Sefydlog, fel y'u diwygiwyd ........ 15**

**RHEOL SEFYDLOG 2 – Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill yr Aelodau ........ 15**

**RHEOL SEFYDLOG 13 – Y Drefn yn y Cyfarfodydd Llawn ........ 17**

**RHEOL SEFYDLOG 15 – Gweithdrefnau Gosod a Chyflwyno ........ 20**

**RHEOL SEFYDLOG 17 – Gweithredu Pwyllgorau ........ 22**

# 1. Y cefndir

## Cofrestru a datgan buddiannau

**1.** O dan adran 36 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006[1] ("y Ddeddf"), rhaid i Reolau Sefydlog y Senedd gynnwys darpariaeth ar gyfer cofrestr o fuddiannau'r Aelodau a rhaid i'r Rheolau Sefydlog hynny ei gwneud yn ofynnol i Aelodau ddatgan eu buddiannau ariannol a'u buddiannau eraill cyn cymryd rhan yn nhrafodion y Senedd. Nodir y gofynion ar gyfer cofrestru buddiannau'r Aelodau yn Rheolau Sefydlog 2, 3, 4 a 5.[2] Nodir y gofynion ynghylch datgan buddiannau yn Rheolau Sefydlog 2.6 a 2.7, 13.8A a 17.24A:

(i) mae Rheolau Sefydlog 2.6 a 2.7 yn ymwneud â datgan buddiannau cofrestradwy cyn cymryd rhan mewn unrhyw drafodion yn y Senedd;

(ii) mae Rheol Sefydlog 13.8A yn ymwneud â datgan buddiannau perthnasol mewn Cyfarfodydd Llawn; a

(iii) mae Rheol Sefydlog 17.24A yn ymwneud â datgan buddiannau perthnasol mewn cyfarfodydd pwyllgor.

**2.** Ategir gofynion y Rheolau Sefydlog gan y Canllawiau ar Gofrestru a Datgan Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill yr Aelodau[3] ("y Canllawiau"), a gymeradwyir drwy benderfyniad gan y Senedd yn y Cyfarfod Llawn.

**3.** Yn unol â Rheol Sefydlog 22.2, rhaid i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad ("y Pwyllgor Safonau") "[g]oruchwylio'r trefniadau ar gyfer llunio Cofrestr Buddiannau'r Aelodau, y Cofnod o Gyflogaeth Aelodau'r Teulu Gyda Chymorth Arian y Comisiwn, y Cofnod o Amser y bydd Aelodau yn Ymwneud â Gweithgarwch Cofrestradwy a'r Cofnod o Aelodaeth o Gymdeithasau, a ffurf a chynnwys y Gofrestr a'r Cofnodion, a'r trefniadau ar gyfer cadw'r Gofrestr a'r Cofnodion a sicrhau eu bod yn hygyrch". O dan y cylch gorchwyl hwn, y Pwyllgor Safonau sy'n gyfrifol am lunio a chynnal y Canllawiau, ac am gynnig unrhyw newidiadau i'r Senedd.

[1] Deddf Llywodraeth Cymru 2006
[2] Rheolau Sefydlog Senedd Cymru, Ionawr 2026
[3] Canllawiau ar Gofrestru a Datgan Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill yr Aelodau

## Ymchwiliad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

**4.** Cytunodd y Pwyllgor Safonau i adolygu a yw'r trefniadau ar gyfer cofrestru a datgan buddiannau yn dal i fod yn addas at y diben ar gyfer holl fusnes y Senedd, cyn i nifer yr Aelodau o'r Senedd gynyddu i 96. Cynhaliodd ymgynghoriad yn ystod gwanwyn 2023[4] a chytunodd i ymdrin â chofrestru buddiannau'r Aelodau yn gyntaf, ac â datgan buddiannau wedi hynny.

### Cofrestru

**5.** Cyhoeddodd y Pwyllgor Safonau ei adroddiad ar gofrestru buddiannau ym mis Gorffennaf 2025,[5] ac fe'i trafodwyd gan y Pwyllgor Busnes ym mis Medi 2025. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i dderbyn yr argymhellion a wnaed iddo, a chynigiodd ddiwygiadau ar wahân i'r Rheolau Sefydlog yn sgil yr argymhellion hynny yn ei adroddiad ar Ddiwygio'r Rheolau Sefydlog: Rheolau Sefydlog 2, 3, 4 a 5 mewn perthynas â Chofrestru Buddiannau'r Aelodau ym mis Tachwedd 2025.

### Datgan

**6.** Er mwyn llywio ei adolygiad o reolau'r Senedd ynghylch datgan buddiannau, trafododd y Pwyllgor Safonau sut mae seneddau eraill yn y DU ac Iwerddon yn ymdrin â datgan buddiannau, a chymharodd arferion y seneddau hynny ag arferion y Senedd. Defnyddiodd y Pwyllgor Safonau y wybodaeth hon, ynghyd â'r ymatebion i'r ymgynghoriad, i lunio cynigion drafft ar gyfer newid a chynhaliodd ail ymgynghoriad wedi'i dargedu â'r Aelodau, y Comisiynydd Safonau, a'r Llywydd. Rhannodd y Pwyllgor Safonau y cynigion drafft â Phrif Weithredwr a Chlerc y Senedd hefyd.

**7.** Cyhoeddodd y Pwyllgor Safonau ei adroddiad ar ddatgan buddiannau ym mis Ionawr 2026,[6] lle'r argymhellodd newidiadau i'r rheolau ynghylch datgan buddiannau.

**8.** Trafododd y Pwyllgor Busnes yr argymhellion a wnaed iddo ynghylch newidiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog o ran datgan buddiannau yn ei gyfarfodydd ar 20 Ionawr, 27 Ionawr, 29 Ionawr a 10 Chwefror 2026, a derbyniodd yr argymhellion hynny mewn egwyddor.

---

[4] Tudalen ymgynghoriad yr Ymchwiliad i Gofrestru a Datgan Buddiannau, Senedd Cymru
[5] Ymchwiliad i Gofrestru a Datgan Buddiannau: Cofrestru Buddiannau, Gorffennaf 2025
[6] Ymchwiliad i Gofrestru a Datgan Buddiannau: Datgan Buddiannau, y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, Senedd Cymru, Ionawr 2026

## Y broses

**9.** Yn unol â'i gyfrifoldeb am gynnig newidiadau i'r Rheolau Sefydlog o dan Reol Sefydlog 33.2, mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno i gynnig y diwygiadau i'r Rheolau Sefydlog a nodir yn yr adroddiad hwn i'w derbyn gan y Senedd yn y Cyfarfod Llawn. Bydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn cynnig newidiadau cysylltiedig i'r Canllawiau i'w derbyn drwy benderfyniad gan y Senedd yn y Cyfarfod Llawn, a bydd angen i'r Llywydd gymeradwyo'r newidiadau i'r ffurflen ragnodedig sy'n gysylltiedig â hynny.

# 2. Cynigion ar gyfer newidiadau i'r Rheolau Sefydlog

**10.** Mae'r newidiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud â buddiannau'r Aelodau (Rheolau Sefydlog 2, 13, 15 a 17) wedi'u tracio yn Atodiad A, ac mae fersiwn heb ei thracio o'r Rheolau Sefydlog newydd arfaethedig yn Atodiad B.

## Dileu'r gwaharddiad ar bleidleisio pan fo Aelod wedi datgan buddiant cofrestradwy

**11.** Mae'r cynnig i ddileu Rheol Sefydlog 2.9 yn gweithredu argymhelliad 1 yn adroddiad y Pwyllgor Safonau, a oedd yn argymell y dylid diwygio Rheol Sefydlog 2 i ddileu'r gwaharddiad ar bleidleisio yn Rheol Sefydlog 2.9 pan fo Aelod wedi datgan buddiant cofrestradwy o dan Reolau Sefydlog 2.6 a 2.7.

**12.** Mae Rheol Sefydlog 2: Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill yr Aelodau yn cynnwys y darpariaethau a ganlyn:

> *2.6 Yn yr amgylchiadau a bennir yn Rheol Sefydlog 2, cyn cymryd rhan mewn unrhyw drafodion yn y Senedd, rhaid i Aelod ddatgan ar lafar unrhyw fuddiant ariannol sydd ganddo, neu y gall fod yn disgwyl ei gael, neu, hyd y gŵyr yr Aelod, unrhyw fuddiant ariannol sydd gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol sydd gan yr Aelod, neu y gallant fod yn disgwyl ei gael, mewn unrhyw fater sy'n codi yn y trafodion hynny.*
>
> *2.7 Rhaid i ddatganiad llafar o dan Reol Sefydlog 2.6 gael ei wneud mewn perthynas ag unrhyw fuddiant a bennir ym*

*mharagraff 5 o'r Atodiad i Reol Sefydlog 2 os gallai penderfyniad penodol yn y trafodion hynny arwain at fantais ariannol uniongyrchol i'r Aelod, neu, hyd y gŵyr yr Aelod, i bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol sydd gan yr Aelod, a fyddai'n fwy na'r fantais a allai ddod i ran etholwyr yn gyffredinol.*

*2.9 Os yw'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 2.6 i Aelod ddatgan buddiant mewn mater cyn cymryd rhan mewn unrhyw drafodion yn y Senedd, rhaid i'r Aelod hwnnw beidio â phleidleisio ar unrhyw gynnig sy'n ymwneud â'r mater hwnnw yn y trafodion hynny. Nid yw Rheol Sefydlog 2.9 yn gymwys mewn perthynas ag arfer pleidlais fwrw o dan Reol Sefydlog 6.20.*

**13.** Gyda'i gilydd, effaith y darpariaethau hyn, pan fo gan Aelod, ei bartner, neu blentyn dibynnol iddo fuddiant ariannol cofrestradwy mewn mater sy'n codi mewn trafodion, a bod y Senedd yn gwneud penderfyniad a allai arwain at fantais ariannol uniongyrchol i'r Aelod sy'n fwy na'r fantais a allai ddod i ran etholwyr yn gyffredinol, yw fod rhaid iddo wneud datganiad llafar, ac—ar ôl gwneud y datganiad hwnnw—na chaiff gymryd rhan mewn unrhyw bleidlais sy'n ymwneud â'r mater hwnnw.

**14.** Mae'r gofynion hyn yn seiliedig ar adran 36 o'r Ddeddf. Mae adran 36 yn ei gwneud yn ofynnol i Reolau Sefydlog y Senedd wneud darpariaeth ynghylch datgan buddiannau ariannol. Mae hefyd yn rhoi opsiwn i'r Rheolau Sefydlog ddarparu ar gyfer atal neu gyfyngu ar gyfranogiad Aelod sydd wedi datgan buddiant o'r fath mewn unrhyw drafodion. Gan fod y Rheolau Sefydlog yn nodi ar hyn o bryd na chaiff Aelod bleidleisio ar gynnig y mae rhaid iddo wneud datganiad llafar mewn perthynas ag ef o dan Reol Sefydlog 2.6, byddai pleidleisio o dan yr amgylchiadau hynny yn drosedd ar hyn o bryd o dan adran 36(7) o'r Ddeddf.[7]

**15.** Ehangwyd y gofyniad yn dilyn adolygiad yn 2014, o fantais ariannol uniongyrchol a fyddai'n fwy na'r hyn a allai ddod i ran personau y mae'r

[7] Mae adran 36(7) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. yn nodi: "a Member of the Senedd who—
(a) takes part in Senedd proceedings without having complied with, or in contravention of, any provision included in the standing orders in pursuance of subsections (2) to (4), or
(b) contravenes any provision included in the standing orders in pursuance of subsection (5), commits an offence."

penderfyniad yn effeithio arnynt yn gyffredinol i un “a fyddai'n fwy na'r fantais a allai ddod i ran etholwyr yn gyffredinol”.

**16.** Mae'r Pwyllgor Safonau o'r farn ei bod yn briodol dileu'r gwaharddiad hwn ar bleidleisio am y rhesymau a ganlyn:

(i) mae natur y gofyniad ynghylch gwahardd pleidleisio yn golygu mai dim ond o dan amgylchiadau penodol iawn y byddai'n cael ei sbarduno, ac nid yw hynny erioed wedi digwydd yn y Senedd/Cynulliad;

(ii) nid oes gan yr un ddeddfwrfa arall yn y DU nac Iwerddon reol o'r fath;

(iii) nid yw'r Senedd na deddfwrfeydd eraill—yn wahanol i awdurdodau lleol a llywodraethau ar bob lefel—yn gyffredinol yn gwneud penderfyniadau a fyddai'n arwain at fudd ariannol uniongyrchol i unigolion, ac ymddengys fod y rheol yn waddol i strwythur corff corfforedig y Cynulliad, fel yr oedd ar y pryd, rhwng 1999 a 2006, cyn y rhaniad cyfreithiol rhwng y Cynulliad a Llywodraeth Cymru;

(iv) awgrymodd adroddiad diweddar gan y Comisiynydd Safonau fod rhai Aelodau yn cyfuno'r rheol hon â'r gofyniad ehangach o lawer i ddatgan buddiannau perthnasol, er enghraifft drwy feddwl mai dim ond pan fo penderfyniad yn cael ei wneud y mae angen gwneud datganiad o'r fath. [8]

**17.** Cynigiodd y Pwyllgor Safonau y dylid dileu'r rheol ynghylch gwahardd pleidleisio yn Rheol Sefydlog 2, a chynhwysodd y cynnig hwn yn ei ail ymgynghoriad. Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad hwnnw, cytunodd y Comisiynydd Safonau y dylid dileu'r rheol yn Rheol Sefydlog 2 ynghylch gwahardd pleidleisio, ac y dylid caniatáu i'r Aelodau gymryd rhan yn llawn mewn unrhyw bleidlais, ar yr amod bod unrhyw fuddiant yn y pwnc dan sylw wedi'i ddatgan ac felly yn y parth cyhoeddus.

**18.** Dywedodd y Pwyllgor Safonau hefyd ei fod o'r farn y byddai dileu'r gofyniad hwn yn rhoi mwy o eglurder ynghylch y gofynion o ran datgan buddiannau i'r rhai sy'n cymryd rhan yn nhrafodion y Senedd a'r rhai sy'n dilyn y trafodion hynny.

[8] **Y Pedwerydd adroddiad ar bymtheg i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9**

**19.** Trafododd y Pwyllgor Busnes argymhelliad y Pwyllgor Safonau a chytunodd i gynnig y dylid dileu'r gwaharddiad ar bleidleisio yn Rheol Sefydlog 2.9 pan fo Aelod wedi datgan buddiant cofrestradwy o dan Reolau Sefydlog 2.6 a 2.7.

## Datgan buddiannau perthnasol ar adeg cyflwyno busnes

**20.** Mae'r diwygiadau arfaethedig i Reol Sefydlog 15 yn gweithredu argymhelliad 2 yn adroddiad y Pwyllgor Safonau, sy'n argymell y dylai datgan buddiannau perthnasol ar adeg cyflwyno busnes fod yn ofyniad yn y Rheolau Sefydlog.

**21.** Rhaid i Aelod eisoes wneud datganiad ar lafar ynghylch unrhyw fuddiannau perthnasol sydd gan yr Aelod neu aelod o'i deulu, neu y mae'r Aelod neu aelod o'i deulu yn disgwyl eu cael, mewn unrhyw fater sy'n codi yn nhrafodion y Senedd. Mae'r gofyniad i ddatgan buddiannau perthnasol wedi'i nodi yn Rheolau Sefydlog 13.8A (y Cyfarfod Llawn) a 17.24A (pwyllgorau).[9]

**22.** Ar hyn o bryd, mae opsiwn i'r Aelodau ddatgan buddiant wrth gyflwyno busnes drwy system y Swyddfa Gyflwyno (porth ar-lein y Swyddfa Gyflwyno lle mae'r Aelodau a'u staff cymorth yn cyflwyno busnes), neu ar y ffurflen cyflwyno gwelliannau ar gyfer Biliau. Mae opsiwn hefyd iddynt nodi natur y buddiant ar adeg cyflwyno'r busnes. Os byddant yn dewis gwneud hynny, mae [R] yn ymddangos wrth ymyl y busnes a gyflwynwyd ar ôl iddo gael ei gyhoeddi i ddangos bod yr Aelod wedi datgan buddiant, ond ar hyn o bryd ni chyhoeddir unrhyw fanylion ynghylch natur y buddiant sy'n cael ei ddatgan.

**23.** Nododd y Pwyllgor Safonau fod y broses hon yn ddewisol yn hytrach nag yn ofynnol ac nad yw wedi'i nodi yn y Rheolau Sefydlog nac yn y Canllawiau. O'r herwydd, mae defnydd yr Aelodau o'r broses yn anghyson, ac nid oes unrhyw ganlyniadau'n deillio o fethu â datgan buddiant ar adeg cyflwyno busnes.

**24.** Cytunodd y Pwyllgor Safonau, er mwyn cysoni gofynion y Senedd â'r gofynion mewn deddfwrfeydd eraill, y dylai datgan buddiannau perthnasol ar adeg cyflwyno busnes fod yn ofyniad yn y Rheolau Sefydlog, ac ymgynghorodd ar y cynnig drafft. Croesawodd y Comisiynydd Safonau y cynigion hyn.

**25.** Fel gyda methu â gwneud datganiad llafar o fuddiant yn y dyfodol neu fuddiant perthnasol o dan Reolau Sefydlog 13.8A a 17.24A, ni fyddai methu â

[9] Yn wahanol i ofyniad Rheol Sefydlog 2.6, nid yw methu â datgan buddiant perthnasol o dan Reolau Sefydlog 13.8A a 17.24A yn drosedd o dan Ddeddf 2006, ond gallai fod yn destun cwyn i'r Comisiynydd Safonau.

datgan buddiant ar adeg cyflwyno busnes yn drosedd o dan y Ddeddf, ond gallai fod yn destun cwyn i'r Comisiynydd Safonau.

### Gohebiaeth â'r Pwyllgor Safonau

**26.** Wrth drafod yr argymhelliad hwn, ystyriodd y Pwyllgor Busnes oblygiadau'r cynnig i gynnwys hyn fel gofyniad yn y Rheolau Sefydlog. Ysgrifennodd at y Pwyllgor Safonau i ofyn iddo ystyried rhoi arweiniad ynghylch y disgwyliadau ar Aelodau sy'n cyflwyno busnes ar ran eraill (e.e. y llywodraeth, Comisiwn y Senedd, pwyllgor neu grŵp gwleidyddol). Dywedodd y Pwyllgor Busnes mai priodol fyddai nodi ei bod yn llai tebygol y byddai angen i Aelod sy'n cyflwyno busnes ar ran eraill yn y modd hwn ddatgan buddiant perthnasol ar adeg cyflwyno'r busnes.[10]

**27.** Wrth ymateb, nododd y Pwyllgor Safonau ei fod eisoes wedi cytuno mewn egwyddor i gynnig diwygiadau i'r Canllawiau ar Gofrestru a Datgan Buddiannau, gan gynnwys ychwanegu adran i roi canllawiau ynghylch y 'prawf perthnasedd', a fyddai'n nodi ffactorau a allai ddylanwadu ar a fyddai'n "rhesymol i eraill feddwl bod buddiant wedi dylanwadu ar gyfraniad Aelod".[11]

**28.** Ar ôl ystyried cais y Pwyllgor Busnes, ac ymgynghori â'r Comisiynydd Safonau, cadarnhaodd y Pwyllgor Safonau y byddai'n fodlon ychwanegu geiriad at y prawf perthnasedd i'r perwyl y byddai'r prawf yn llai tebygol o gael ei fodloni (h.y. y byddai'n llai tebygol y byddai angen datganiad) pe bai Aelod yn cyflwyno busnes yn ffurfiol yn rhinwedd ei rôl fel deiliad swydd sy'n gweithredu ar ran eraill yn unig, na phe bai Aelod yn cyflwyno busnes ar ei ran ei hun neu wedi rhoi cychwyn ar y broses o gyflwyno'r busnes dan sylw.[12]

**29.** Ar ôl ystyried argymhelliad y Pwyllgor Safonau a'i sicrwydd ynghylch yr eglurder y byddai'r Canllawiau'n ei roi, cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnig y dylai datgan y buddiannau perthnasol ar adeg cyflwyno busnes fod yn ofyniad yn y Rheolau Sefydlog.

# 3. Penderfyniad

**30.** Ar 10 Chwefror 2026, cytunodd y Pwyllgor Busnes yn ffurfiol i gynnig y newidiadau i'r Rheolau Sefydlog a nodir yn yr adroddiad hwn ac yn Atodiad A.

[10] Llythyr oddi wrth y Pwyllgor Busnes at y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, 29 Ionawr 2026
[11] Llythyr oddi wrth y Pwyllgor Safonau Ymddygiad at y Pwyllgor Busnes, 4 Chwefror 2026
[12] Llythyr oddi wrth y Pwyllgor Safonau Ymddygiad at y Pwyllgor Busnes, 4 Chwefror 2026

Gwahoddir y Senedd i gymeradwyo'r Rheol Sefydlog newydd arfaethedig yn Atodiad B.

**31.** Os cânt eu derbyn, bydd y newidiadau arfaethedig yn dod i rym ar ddechrau'r Senedd nesaf ym mis Mai 2026.

# Atodiad A: Newidiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog a nodiadau esboniadol

| RHEOL SEFYDLOG 2 – Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill yr Aelodau | | |
|---|---|---|
| **Datgan Buddiannau Cofrestradwy cyn Cymryd Rhan mewn Unrhyw Drafodion yn y Senedd** | | Cadw'r is-bennawd |
| 2.6. | Yn yr amgylchiadau a bennir yn Rheol Sefydlog 2.7, cyn cymryd rhan mewn unrhyw drafodion yn y Senedd, rhaid i Aelod ddatgan ar lafar unrhyw fuddiant ariannol sydd ganddo, neu y gall fod yn disgwyl ei gael, neu, hyd y gŵyr yr Aelod, unrhyw fuddiant ariannol sydd gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol sydd gan yr Aelod, neu y gallant fod yn disgwyl ei gael, mewn unrhyw fater sy'n codi yn y trafodion hynny. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Cynigir y newid er mwyn rhoi eglurder ynghylch yr agwedd ar Reol Sefydlog 2 y cyfeirir ati yn Rheol Sefydlog 2.6. |
| 2.7. | Rhaid i ddatganiad llafar o dan Reol Sefydlog 2.6 gael ei wneud mewn perthynas ag unrhyw fuddiant a bennir ym mharagraff 5 o'r Atodiad i Reol Sefydlog 2 os gallai penderfyniad penodol yn y trafodion hynny arwain at fantais ariannol uniongyrchol i'r Aelod, neu, hyd y gŵyr yr Aelod, i bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol sydd gan yr Aelod, a fyddai'n fwy na'r fantais a allai ddod i ran etholwyr yn gyffredinol. | Cadw'r Rheol Sefydlog<br>Rheol Sefydlog wedi'i chynnwys er gwybodaeth yn unig. |

| **Lobïo am Dâl neu Gydnabyddiaeth** | Cadw’r is-bennawd |
|---|---|
| 2.8. Rhaid i Aelod beidio â chychwyn na dadlau o blaid unrhyw achos neu fater ar ran unrhyw gorff neu unigolyn mewn unrhyw drafodion yn y Senedd, nac annog unrhyw Aelod arall i gychwyn neu ddadlau o blaid unrhyw achos neu fater mewn unrhyw drafodion o’r fath, yn gyfnewid am unrhyw dâl neu fudd mewn da, boed yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol, y mae'r Aelod, neu, hyd y gŵyr yr Aelod, ei bartner neu unrhyw blentyn dibynnol sydd gan yr Aelod, wedi'i gael neu'n disgwyl ei gael. | Cadw’r Rheol Sefydlog<br>Rheol Sefydlog wedi’i chynnwys er gwybodaeth yn unig. |
| **Gwahardd Pleidleisio** | |
| 2.9 *[Dilëwyd y Rheol Sefydlog hon drwy benderfyniad yn y Cyfarfod Llawn ar xx xx xx]*<br><br>~~Os yw’n ofynnol o dan Reol Sefydlog 2.6 i Aelod ddatgan buddiant mewn mater cyn cymryd rhan mewn unrhyw drafodion yn y Senedd, rhaid i’r Aelod hwnnw beidio â phleidleisio ar unrhyw gynnig sy'n ymwneud â'r mater hwnnw yn y trafodion hynny. Nid yw Rheol Sefydlog 2.9 yn gymwys mewn perthynas ag arfer pleidlais fwrw o dan Reol Sefydlog 6.20.~~ | Dileu’r Rheol Sefydlog<br>Mae’r newid arfaethedig yn adlewyrchu’r cynnig i ddileu’r gwaharddiad ar bleidleisio yn Rheol Sefydlog 2.9 pan fo Aelod wedi datgan buddiant cofrestradwy o dan Reolau Sefydlog 2.6 a 2.7. |
| **13. RHEOL SEFYDLOG 13 – Y Drefn yn y Cyfarfodydd Llawn** | |
| **Datgan Buddiannau Perthnasol *ar Lafar*** | Diwygio’r is-bennawd |

| | |
|---|---|
| 13.8.A Cyn cymryd rhan mewn unrhyw drafodion yn y cyfarfod llawn, rhaid i Aelod ddatgan ar lafar unrhyw fuddiant, boed yn ariannol neu fel arall, sydd gan yr Aelod, neu hyd y gŵyr yr Aelod, sydd gan aelod o'i deulu, neu y mae'r Aelod neu aelod o'i deulu yn disgwyl ei gael sy'n berthnasol i'r trafodion hynny, ac y gellid ystyried yn rhesymol gan eraill ei fod yn dylanwadu ar gyfraniad yr Aelod. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Cynigir y newid yn sgil y cynnig i ychwanegu Rheol Sefydlog 15.6, sy'n creu gofyniad i Aelodau ddatgan buddiant wrth gyflwyno busnes. Bwriad y newid i Reol Sefydlog 13.8A a'r is-bennawd cysylltiedig yw sicrhau bod y gwahaniaeth yn fwy clir rhwng y gofyniad i ddatgan buddiannau perthnasol ar lafar yn ystod trafodion y Cyfarfod Llawn a'r gofyniad i ddatgan buddiant ar adeg cyflwyno busnes. |
| **15. RHEOL SEFYDLOG 15 – Gweithdrefnau Gosod a Chyflwyno** | |
| 15.6. Cyn cyflwyno unrhyw fusnes, rhaid i Aelod ddatgan unrhyw fuddiant, boed yn ariannol neu fel arall, sydd gan yr Aelod, neu hyd y gŵyr yr Aelod, sydd gan aelod o'i deulu, neu y mae'r Aelod neu aelod o'i deulu yn disgwyl ei gael sy'n berthnasol i'r trafodion hynny, ac y gellid ystyried yn rhesymol gan eraill ei fod yn dylanwadu ar gyflwyno'r busnes gan yr Aelod. | Mewnosod Rheol Sefydlog newydd<br>Mae'r newid arfaethedig yn creu gofyniad i ddatgan buddiannau perthnasol ar adeg cyflwyno busnes. |
| 15.7. Nid yw Rheol Sefydlog 15.6. yn effeithio ar y gofynion o ran datgan ar lafar fuddiannau cofrestradwy o dan Reol Sefydlog 2.6 neu fuddiannau perthnasol o dan Reolau Sefydlog 13.8A a 17.24A. | Mewnosod Rheol Sefydlog newydd<br>Mae'r newid arfaethedig yn egluro y bydd yn dal i fod yn ofynnol i Aelodau ddatgan ar lafar fuddiannau cofrestradwy o dan Reol Sefydlog 2.6 neu fuddiannau perthnasol o dan Reolau Sefydlog 13.8A a 17.24A. |
| **17. RHEOL SEFYDLOG 17 – Gweithredu Pwyllgorau** | |
| **Datgan Buddiannau Perthnasol ar Lafar** | Diwygio'r is-bennawd |
| 17.24A Cyn cymryd rhan mewn unrhyw drafodion pwyllgor, rhaid i Aelod ddatgan ar lafar unrhyw fuddiant, boed yn ariannol neu fel arall, sydd gan | Diwygio'r Rheol Sefydlog |

| | |
|---|---|
| yr Aelod, neu hyd y gŵyr yr Aelod, sydd gan aelod o'i deulu, neu y mae'r Aelod neu aelod o'i deulu yn disgwyl ei gael sy'n berthnasol i'r trafodion hynny, ac y gellid ystyried yn rhesymol gan eraill ei fod yn dylanwadu ar gyfraniad yr Aelod. | Cynigir y newid yn sgil y cynnig i ychwanegu Rheol Sefydlog 15.6, sy'n creu gofyniad i Aelodau ddatgan buddiant wrth gyflwyno busnes. Bwriad y newid i Reol Sefydlog 17.24A a'r is-bennawd cysylltiedig yw sicrhau bod y gwahaniaeth yn fwy clir rhwng y gofyniad i ddatgan buddiannau perthnasol ar lafar yn ystod trafodion pwyllgor a'r gofyniad i ddatgan buddiant ar adeg cyflwyno busnes. |

# Atodiad B: Y Rheolau Sefydlog, fel y'u diwygiwyd

## RHEOL SEFYDLOG 2 – Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill yr Aelodau

### Cofrestru Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill

2.1 Rhaid i'r Llywydd gadw a chyhoeddi Cofrestr o Fuddiannau'r Aelodau, a rhaid bod copïau ar gael i'r Aelodau a'r cyhoedd eu harchwilio.

2.2 Rhaid i'r buddiannau a nodir yn yr Atodiad i Reol Sefydlog 2 gael eu cofrestru yn y Gofrestr Fuddiannau drwy lenwi ffurflen a ragnodir gan y Llywydd.

2.3 Cyn pen wyth wythnos ar ôl i Aelod dyngu'r llw teyrngarwch neu roi'r cadarnhad cyfatebol, rhaid iddo lenwi'r ffurflen a ragnodir gan y Llywydd, gan nodi holl fanylion y buddiannau y mae'n ofynnol eu cofrestru o dan Reol Sefydlog 2; a rhaid i'r Aelod lofnodi'r ffurflen a'i chyflwyno i'r Clerc.

2.4 Cyn pen pedair wythnos ar ôl i unrhyw newid ddigwydd, rhaid i Aelod hysbysu'r Llywydd am y newid yn ei fuddiannau cofrestredig drwy lenwi'r ffurflen a ragnodir gan y Llywydd, a rhaid i'r Aelod lofnodi'r ffurflen a'i chyflwyno i'r Clerc.

2.5 Caiff Aelod gyflwyno'r ffurflen y cyfeirir ati yn Rheol Sefydlog 2.3 neu 2.4 drwy fynd â hi at y Clerc neu drwy drefnu i berson arall wneud hynny neu ei hanfon drwy'r post, ond rhaid peidio â barnu bod y ffurflen wedi'i chyflwyno nes i'r Clerc ei chael.

### Datgan Buddiannau Cofrestradwy cyn Cymryd Rhan mewn Unrhyw Drafodion yn y Senedd

2.6 Yn yr amgylchiadau a bennir yn Rheol Sefydlog 2.7, cyn cymryd rhan mewn unrhyw drafodion yn y Senedd, rhaid i Aelod ddatgan ar lafar unrhyw fuddiant ariannol sydd ganddo, neu y gall fod yn disgwyl ei gael, neu, hyd y gŵyr yr Aelod, unrhyw fuddiant ariannol sydd gan

bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol sydd gan yr Aelod, neu y gallant fod yn disgwyl ei gael, mewn unrhyw fater sy'n codi yn y trafodion hynny.

2.7 Rhaid i ddatganiad llafar o dan Reol Sefydlog 2.6 gael ei wneud mewn perthynas ag unrhyw fuddiant a bennir ym mharagraff 5 o'r Atodiad i Reol Sefydlog 2 os gallai penderfyniad penodol yn y trafodion hynny arwain at fantais ariannol uniongyrchol i'r Aelod, neu, hyd y gŵyr yr Aelod, i bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol sydd gan yr Aelod, a fyddai'n fwy na'r fantais a allai ddod i ran etholwyr yn gyffredinol.

## Lobïo am Dâl neu Gydnabyddiaeth

2.8 Rhaid i Aelod beidio â chychwyn na dadlau o blaid unrhyw achos neu fater ar ran unrhyw gorff neu unigolyn mewn unrhyw drafodion yn y Senedd, nac annog unrhyw Aelod arall i gychwyn neu ddadlau o blaid unrhyw achos neu fater mewn unrhyw drafodion o'r fath, yn gyfnewid am unrhyw dâl neu fudd mewn da, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, y mae'r Aelod, neu, hyd y gŵyr yr Aelod, ei bartner neu unrhyw blentyn dibynnol sydd gan yr Aelod, wedi'i gael neu'n disgwyl ei gael.

## Gwahardd Pleidleisio

*2.9. [Dilëwyd y Rheol Sefydlog hon drwy benderfyniad yn y Cyfarfod Llawn ar xx xx xx]*

*2.10. [Dilëwyd y Rheol Sefydlog hon drwy benderfyniad y Senedd ar 02 Hydref 2013]*

*2.11. [Dilëwyd y Rheol Sefydlog hon drwy benderfyniad y Senedd ar 02 Hydref 2013]*

*2.12. [Dilëwyd y Rheol Sefydlog drwy benderfyniad y Senedd ar 17.06.15 a ddaeth i rym ar 01.09.15]*

*2.13. [Dilëwyd y Rheol Sefydlog drwy benderfyniad y Senedd ar 17.06.15 a ddaeth i rym ar 01.09.15]*

# RHEOL SEFYDLOG 13 – Y Drefn yn y Cyfarfodydd Llawn

## Rheolau'r Dadleuon

13.1 Rhaid i'r Aelodau sy'n cael eu galw i siarad gan y Llywydd annerch y cadeirydd.

13.2 Caiff yr Aelodau siarad yn Gymraeg neu yn Saesneg a rhaid darparu cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gyfer areithiau a draddodir yn Gymraeg.

13.3 Caiff y Llywydd, ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, wahodd unrhyw berson i gymryd rhan mewn Cyfarfod Llawn at ddiben penodol. Caniateir i berson a wahoddwyd siarad, ond ni chaniateir iddo bleidleisio.

13.4 Rhaid i'r areithiau fod yn berthnasol i'r busnes sydd gerbron y Senedd, ac osgoi ailadrodd diflas.

13.5 Caiff y Llywydd gyhoeddi terfyn amser ar areithiau'r Aelodau a chaiff gyfarwyddo Aelod sydd wedi siarad yn rhy hir i roi'r gorau i siarad.

13.6 Ac eithrio'r sawl sy'n gwneud cynnig neu'n cynnig gwelliant ac sy'n arfer hawl i ateb, ni chaiff Aelod siarad fwy nag unwaith ar unrhyw fater ac eithrio, gyda chaniatâd y Llywydd, er mwyn esbonio yn fyr ryw bwynt perthnasol yn ei araith wreiddiol.

13.7 Caiff Aelod sy'n siarad ganiatáu i Aelodau eraill ymyrryd er mwyn egluro cyn ailddechrau ar ei araith.

13.8 Ni chaiff Aelod siarad ar ôl i'r sawl sy'n gwneud y cynnig arfer ei hawl i ateb.

## Datgan Buddiannau Perthnasol ar Lafar

13.8A. Cyn cymryd rhan mewn unrhyw drafodion yn y cyfarfod llawn, rhaid i Aelod ddatgan ar lafar unrhyw fuddiant, boed yn ariannol neu fel arall, sydd gan yr Aelod, neu hyd y gŵyr yr Aelod, sydd gan aelod o'i deulu, neu y mae'r Aelod neu aelod o'i deulu yn disgwyl ei gael sy'n berthnasol i'r trafodion hynny, ac y gellid ystyried yn rhesymol gan eraill ei fod yn dylanwadu ar gyfraniad yr Aelod.

13.8B Nid yw Rheol Sefydlog 13.8A yn effeithio ar y gofynion o ran datgan buddiannau cofrestradwy ar lafar o dan Reol Sefydlog 2.6.

## Cadw Trefn

13.9. Y Llywydd sydd i gadw trefn yn y cyfarfodydd llawn a rhaid galw i drefn unrhyw Aelod:

(i) sy'n ymddwyn mewn ffordd a fyddai, ym marn y Llywydd, yn gyfystyr â thramgwydd troseddol neu ddirmyg llys;

(ii) sy'n rhwystro busnes y Senedd;

(iii) sy'n ceisio codi mater sydd y tu hwnt i gwmpas y ddadl neu'r cynnig;

(iv) sy'n euog o ymddygiad anghwrtais neu amhriodol;

(v) sy'n defnyddio iaith sy'n groes i'r drefn, iaith sy'n gwahaniaethu neu sy'n peri tramgwydd, neu iaith sy'n amharu ar urddas y Senedd;

(vi) sy'n gwrthod cydymffurfio ag unrhyw Reol Sefydlog neu ag unrhyw ofyniad arall ynglŷn ag ymddygiad Aelodau; neu

(vii) sy'n anwybyddu awdurdod y cadeirydd.

13.10. Rhaid i Aelod gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan y Llywydd ynghylch unrhyw ymddygiad sydd wedi peri ei alw i drefn.

13.11. Caiff y Llywydd ei gwneud yn ofynnol i Aelod ymneilltuo o drafodion y Senedd am weddill y dydd os yw'r Llywydd o'r farn bod yr ymddygiad yn cyfiawnhau ymneilltuo.

13.12 Pan fydd y Llywydd wedi'i gwneud yn ofynnol i Aelod ymneilltuo o drafodion y Senedd ac nad yw'r Aelod wedi gwneud hynny, rhaid i gynnig i wahardd yr Aelod o drafodion y Senedd gael ei wneud gan y Llywydd a rhaid pleidleisio arno ar unwaith.

13.13 Mae gwaharddiad Aelod o dan Reol Sefydlog 13.12 yn dod i rym ar unwaith a rhaid i'r gwaharddiad hwnnw bara:

(i) y tro cyntaf yn ystod unrhyw gyfnod o 12 mis, tan ddiwedd y diwrnod gwaith yn union ar ôl diwrnod y gwaharddiad;

(ii) yr ail dro yn ystod yr un cyfnod o 12 mis, am bum diwrnod gwaith yn union ar ôl diwrnod y gwaharddiad; a

(iii) y trydydd tro neu ar unrhyw dro wedi hynny yn ystod yr un cyfnod o 12 mis, am 20 diwrnod gwaith yn union ar ôl diwrnod y gwaharddiad.

13.14 Yn ystod cyfnod gwaharddiad Aelod o dan Reolau Sefydlog 13.12 ac 13.13, ni fydd gan yr Aelod hawl i gael dim cyflog gan y Senedd ac ni chaniateir i'r Aelod fynychu unrhyw un o drafodion y Senedd.

## Sub Judice

13.15 Yn ddarostyngedig i hawl y Senedd i ddeddfu ar unrhyw fater neu i drafod is-ddeddfwriaeth, rhaid i Aelod beidio â chodi unrhyw fater na mynd ar drywydd unrhyw fater yn y cyfarfodydd llawn sy'n ymwneud ag achosion sydd ar waith (fel y'u diffinnir yn Atodlen 1 i Ddeddf Dirmygu Llys 1981), ac eithrio i'r graddau a ganiateir gan y Llywydd.

## Cysylltiadau â'r Farnwriaeth

13.16 Oni bai bod y mater yn destun cynnig gwreiddiol, rhaid i'r Aelodau beidio yn y cyfarfodydd llawn â beirniadu ymddygiad barnwyr llysoedd y Deyrnas Unedig wrth iddynt gyflawni eu swyddogaeth farnwrol; (yn Rheol Sefydlog 13.16 mae "barnwr" yn cynnwys personau sy'n dal swydd barnwr, yn llawn amser neu'n rhan-amser).

13.17 Rhaid i'r Senedd beidio â thrafod penodiadau barnwrol unigol.

# RHEOL SEFYDLOG 15 – Gweithdrefnau Gosod a Chyflwyno

15.1 Caniateir i'r dogfennau canlynol neu'r categorïau canlynol o ddogfennau gael eu gosod gerbron y Senedd:

(i) dogfen y mae unrhyw ddeddfiad yn pennu bod yn rhaid ei gosod gerbron y Senedd neu y caniateir ei gosod gerbron y Senedd neu ddogfen sy'n dod o fewn telerau adran 86 o'r Ddeddf neu baragraffau 36 neu 37 o Atodlen 11 iddi;

(ii) deddfwriaeth neu ddeddfwriaeth arfaethedig neu ddrafft y mae'n ofynnol ei gosod o dan Reolau Sefydlog 25, 26, 26A, 27 neu 28;

(iii) unrhyw adroddiad a wneir gan un o bwyllgorau'r Senedd ac y mae'r pwyllgor hwnnw wedi cytuno y dylid ei gyflwyno i'r Senedd, ac eithrio unrhyw adroddiad y mae (iv) isod yn gymwys iddo;

(iv) unrhyw ddogfen arall a bennir mewn man arall yn y Rheolau Sefydlog y mae'n ofynnol ei gosod yn unol â'r gofynion penodol mewn Rheol Sefydlog; a

(v) unrhyw ddogfen arall, neu unrhyw gategori arall o ddogfen, y mae'r Senedd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu gosod, drwy benderfyniad mewn cyfarfod llawn.

15.2 Caiff aelod o'r llywodraeth neu'r Llywydd osod dogfennau priodol eraill.

15.3 Os yw unrhyw ddogfen yn cael ei gosod neu os yw unrhyw gynnig, gwelliant, cwestiwn neu fusnes arall yn cael ei gyflwyno o dan Reol Sefydlog 15 neu unrhyw Reol Sefydlog arall, rhaid iddo gael ei osod neu ei gyflwyno yn unol â chanllawiau ysgrifenedig a gyhoeddir gan y Llywydd, yn unol â Rheol Sefydlog 6.17.

15.4 Rhaid i unrhyw ddogfen a osodir neu unrhyw fusnes a gyflwynir gan y Llywydd, y Comisiwn, y llywodraeth, unrhyw bwyllgor neu'r Clerc gael ei gosod neu ei gyflwyno yn Gymraeg a Saesneg, cyn belled ag y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol.

15.5 Mae derbyn unrhyw ddogfen neu fusnes gan y Clerc ar ddiwrnod gwaith yn ystod oriau y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor Busnes yn gyfystyr â gosod y ddogfen neu gyflwyno'r busnes (yn ôl fel y digwydd).

15.6 Cyn cyflwyno unrhyw fusnes, rhaid i Aelod ddatgan unrhyw fuddiant, boed yn ariannol neu fel arall, sydd gan yr Aelod, neu hyd y gŵyr yr Aelod, sydd gan aelod o'i deulu, neu y mae'r Aelod neu aelod o'i deulu yn disgwyl ei gael sy'n berthnasol i'r trafodion hynny, ac y gellid ystyried yn rhesymol gan eraill ei fod yn dylanwadu ar gyflwyno'r busnes gan yr Aelod.

15.7. Nid yw Rheol Sefydlog 15.6. yn effeithio ar y gofynion o ran datgan ar lafar fuddiannau cofrestradwy o dan Reol Sefydlog 2.6 neu fuddiannau perthnasol o dan Reolau Sefydlog 13.8A a 17.24A.

# RHEOL SEFYDLOG 17 – Gweithredu Pwyllgorau

## Datgan Buddiannau Perthnasol ar Lafar

17.24A. Cyn cymryd rhan mewn unrhyw drafodion pwyllgor, rhaid i Aelod ddatgan ar lafar unrhyw fuddiant, boed yn ariannol neu fel arall, sydd gan yr Aelod, neu hyd y gŵyr yr Aelod, sydd gan aelod o'i deulu, neu y mae'r Aelod neu aelod o'i deulu yn disgwyl ei gael sy'n berthnasol i'r trafodion hynny, ac y gellid ystyried yn rhesymol gan eraill ei fod yn dylanwadu ar gyfraniad yr Aelod.

17.24B. Nid yw Rheol Sefydlog 17.24A yn effeithio ar y gofynion o ran datgan buddiannau cofrestradwy ar lafar o dan Reol Sefydlog 2.6.